# Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a Chyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant sy'n Derbyn Gofal

## Dydd Mawrth 4 Mehefin 2019

## 12.30–13.30

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol:**

David Melding AC – Cadeirydd (DM)

Helen Mary Jones AC (HMJ)

**Yn bresennol:**

Ann Bell - Adoption UK (AB)

Elizabeth Flowers - Staff Comisiynydd Plant Cymru

Paula Foley - Staff Cymorth Jenny Rathbone

Deborah Jones – Prif Swyddog Gweithredol, Voices From Care Cymru (DJ)

Heidi Keiser - NSPCC

Mared Llwyd - Gofal Cymdeithasol Cymru

Emma Phipps-Magill - Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru

Hugh Russell - Llamau (HR)

Elaine Speyer - Barnardos

Charlotte Wooders - Rhwydwaith Maethu Cymru

Tim Crahart - Rheolwr Cymorth Busnes, Voices From Care Cymru (cofnodion) (TC)

**Cafwyd ymddiheuriadau gan:**

Dan Willis - Stepping Stones

Bethan T. James - Cyngor Sir Gâr

Y Parchedig Philip Mangham - Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig

Iwan Williams - Gofal Cymdeithasol Cymru

Y Cynghorydd Ash Lister - Cyngor Caerdydd

Sean O'Neill - Plant yng Nghymru

Sian Thomas - Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Sharon Lovell - Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru

1. **Croeso a chyflwyniad gan y Cadeirydd**
   Croesawodd DM y grŵp.
   Darllenwyd yr ymddiheuriadau a chroesawodd DM aelodau newydd i'r grŵp.

2. **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**
   Eglurodd DM fod angen i'r grŵp gynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a derbyn yr adroddiad blynyddol. Mae'r adroddiad yn grynodeb o'r pynciau a drafodwyd yn ystod y flwyddyn, pwy sydd wedi mynychu ac unrhyw gostau cysylltiedig.
   Gofynnodd DM a oedd y grŵp yn hapus i dderbyn yr adroddiad, ac roedd pawb yn gytûn.
   Roedd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol hefyd yn gofyn am ethol cadeirydd.
   Enwebwyd DM gan HMJ, a chafodd ei ailethol gan y grŵp i barhau yn y rôl.

3. **Cofnodion**
   Ystyriwyd y cofnodion gan y grŵp a'u derbyn fel cofnod cywir.
   Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

4. **Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
   Rhoddodd DM adborth fod adroddiad y pwyllgor yn cael sylw.
   Cynhelir cynhadledd yn yr hydref ar ganlyniadau adroddiad y Pwyllgor.
   Un o'r argymhellion oedd y dylai gwaith Grŵp Cynghori'r Gweinidog fod yn fwy tryloyw ac yn edrych tuag allan. Mae gwefan Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn cael ei diwygio i adlewyrchu'r argymhelliad.

5. **Grŵp Cynghori'r Gweinidog**
   Trafodwyd rhianta corfforaethol yn y grŵp diwethaf ac mae momentwm i gryfhau'r canllawiau statudol yn y maes hwn. Mae ffocws penodol ar asiantaethau nad ydynt bob amser wedi ystyried rhianta corfforaethol i fod yn angenrheidiol, fel iechyd, yr heddlu, gwasanaethau brys, addysg, tai ac ati. Mae angen i bob gwasanaeth fabwysiadu rhianta corfforaethol yn llawn.
   Mae ymrwymiad hefyd i ddeddfu ar rianta corfforaethol os nad yw canllawiau statudol yn ddigonol.
   Cyrhaeddiad addysg yw'r brif flaenoriaeth nesaf ar gyfer y grŵp, oherwydd bod y strategaeth dair blynedd yn dod i ben ym mis Mawrth.
   Ar ôl hyn, bydd y grŵp yn canolbwyntio ar dai.
   Dywedodd DJ na fydd rhianta corfforaethol yn effeithiol go iawn hyd nes iddo gael ei gynnwys mewn deddfwriaeth.
   Teimlai DM y byddai ewyllys gwleidyddol ar gyfer hyn pe bai angen.

6. **Ymgyrch Dileu Digartrefedd Ieuenctid**

Daeth Hugh Russell (HR) o Llamau i'r grŵp i siarad am gynnydd yr ymgyrch mewn perthynas â phobl sydd â phrofiad o ofal.
Dechreuodd drwy egluro bod yr ymgyrch yn gynghrair o sefydliadau.
Dywedodd HR fod lleihad rhwng systemau gwahanol—hynny yw, rhwng gwasanaethau plant ac oedolion—sy'n gallu arwain at bobl ifanc yn methu â chael mynediad at y gwasanaethau angenrheidiol.
Roedd tua 8,000 o achosion o ddigartrefedd ymysg bobl ifanc y llynedd. Fodd bynnag, nid yw'r data'n nodi unigolion, dim ond nifer yr achosion, sy'n debygol o olygu cyfrif dwbl. Nid yw pobl ifanc bob amser yn gwybod bod dyletswydd gofal ganddyn nhw, ac felly nid ydynt yn dweud eu bod yn ddigartref, ond yn syrffio soffa, ac ati. Mae angen ymyrraeth gynharach.

Mae nifer o weithgorau wedi'u sefydlu dan yr ymgyrch, ac un o'r rhain yw Profiad Gofal. Cafwyd cefnogaeth gadarnhaol hefyd gan Lywodraeth Cymru.

Aeth HR ymlaen i ddweud bod cysylltiadau clir rhwng gofal a digartrefedd, a ategir gan ymchwil ac enghreifftiau byw.

- Mae 25 y cant o bobl ifanc yng ngwasanaethau Llamau wedi cael profiad o ofal.
- Mae Crisis yn amcangyfrif bod 33 y cant o bobl ddigartref yn y DU wedi cael profiad o ofal.
- Hefyd mae 25 y cant o bobl sengl ddigartref wedi cael profiad o ofal.

Mae nifer o weithgorau wedi'u sefydlu dan yr ymgyrch. Sharon Lovell (y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol) sy'n cadeirio'r gweithgor Profiad Gofal. Ymgynghorwyd â phobl ifanc, ac maent wedi nodi heriau, rhwystrau a phroblemau systematig. Rhoddwyd yr adborth hwn i'r grŵp, a hefyd i'r Fforwm Gadael Gofal. Datblygwyd rhestr o alwadau i weithredu o hyn. Maent yn cynnwys:

- Diffyg opsiynau llety
- Gorfodi digartrefedd statudol
- Rhianta corfforaethol, h.y. gweithredu fel gwarantwyr
- Argaeledd cymorth; sefydlu lwfans cartref, cronfa Dewi Sant
- Ni ddylai unrhyw berson ifanc â phrofiad o ofal gael eu troi allan o dai cymdeithasol
- Casglu data - yn aml, caiff setiau data eu cyfuno; h.y. pobl ifanc â phrofiad o ofal a phobl ifanc sy'n agored i niwed
- Rhannu data o fewn Awdurdodau Lleol, h.y. prawf o statws profiad o ofal

Mae cynnig ymchwil yn cael ei ddatblygu gyda'r nod o weithio gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal fel ymchwilwyr cymheiriaid. Y cynllun yw cryfhau'r rhestr o flaenoriaethau.
Dywedodd HR y byddai'n hapus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp ar gynnydd.

Croesawodd DM y cynigion polisi cadarn y mae gwaith yr ymgyrch wedi'u hamlygu. Dywedodd hefyd ei bod yn wych cael ymchwilwyr cymheiriaid fel rhan o'r gwaith.

Dywedodd DJ fod yr ymgyrch yn amlygu'r gwahaniaethu y mae pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn ei wynebu pan fyddant yn ddigartref. Ychwanegodd HR fod llawer o labelu o bobl ifanc yn gyffredinol.

Myfyriodd DM ei bod yn feichus disgwyl i bobl ifanc brofi eu statws gofal er mwyn cael mynediad at gefnogaeth flaenoriaethol.

Amlygodd HMJ y mater o ddiogelwch ar gyfer menywod ifanc digartref, a'r math o lety sydd ar gael iddynt. Dywedodd hefyd y byddai'n dda cael Aelodau Cynulliad i gymryd rhan pan nodir rhai enillion cyflym, yn enwedig cyn cyhoeddi'r data. Yna gadawodd HMJ y grŵp.

Gorffennodd HR gan ddweud bod pobl ifanc digartref sy'n gadael gofal yn cael eu lleoli mewn llety 'priodol', ond beth sy'n cael ei ystyried yn 'briodol'?

Diolchodd DM i HR am y cyflwyniad.

## 7. Unrhyw fater arall

**Cynhadledd - Ar Goll Mewn Gofal: 20 mlynedd ymlaen**
Esboniodd DM ei fod yn gobeithio cynnal cynhadledd i goffáu ugain mlynedd ers cyhoeddi'r adroddiad Ar Goll Mewn Gofal. Mae wedi gwneud cais i'w gynnal yn y Pierhead ar fore 11 Rhagfyr.

Mae'n gweithio ar wahodd amrywiaeth o siaradwyr, a bydd DJ yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd mae Cymru wedi'i wneud gydag argymhellion yr adroddiad.

**Pynciau i'w trafod mewn cyfarfodydd yn y dyfodol**
Dywedodd DM y byddai'n gwahodd cynrychiolydd o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i siarad yn y cyfarfod nesaf.

Teimlai hefyd y byddai'n dda cael cynrychiolydd o *Who Cares? Scotland* i siarad am eu gwaith yn ymwneud â rhianta corfforaethol.

Pwnc arall i gael ei amlygu oedd gwasanaethau ar ffiniau gofal, gan ddibynnu ar ddod o hyd i siaradwr.

Gall cynrychiolydd o'r Comisiynydd Plant hefyd fynychu cyfarfod yn y dyfodol i drafod y Bil Hawliau.

Awgrymodd DM y dylid cynnwys un o'r pynciau uchod yn y cyfarfod nesaf, gan ddibynnu ar ddod o hyd i siaradwyr.

8. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**
   12.30 ar 12 Tachwedd 2019 yn Ystafell Gynadledda B, llawr gwaelod, Tŷ Hywel.